Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Emmanuel**
**Victoria Road**
**Y Rhyl**
**Sir Ddinbych**
**LL18 2EG**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 31/03/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Emmanuel ar gyrion tref arfordirol y Rhyl. Mae'r dalgylch yn un ddifreintiedig yn gymdeithasol ac economaidd, gyda lefelau uchel o ddiweithdra a chryn dipyn o gyflogaeth dymhorol. Mae hyn yn effeithio ar niferoedd y disgyblion sy'n dod i mewn i'r ysgol ac yn gadael yr ysgol dros flwyddyn academaidd. Rhwng Medi 2013 a Gorffennaf 2014, ymunodd 44 o ddisgyblion ag Ysgol Emmanuel, a gadawodd 40 o ddisgyblion yr ysgol. Mae'r ardal wedi'i dynodi yn un o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac yn Ewrop. Mae 470 o ddisgyblion yn yr ysgol, yn cynnwys 58 o ddisgyblion sy'n mynychu'r feithrinfa yn rhan-amser. Ceir 16 o ddosbarthiadau un oedran, a darpariaeth adnoddau ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol. Mae cylch chwarae sy'n cael ei gynnal yn annibynnol ar y safle hefyd.

Mae tua 48% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, canran sy'n sylweddol uwchlaw'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan 40% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd hefyd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith gartref. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, ac mae ychydig iawn yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Ymgymerodd y pennaeth â'i swydd ym Medi 2002. Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o'r ysgol yn Hydref 2010.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Emmanuel yn 2014-2015 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,737 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Ddinbych yw £9,103 a'r lleiafswm yw £2,902. Mae Ysgol Emmanuel yn safle 32 o'r 47 ysgol gynradd yn Sir Ddinbych o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn gwahanol pan fyddant yn cychwyn yn yr ysgol, ac yn cyflawni safonau da
- Mae medrau llafar a darllen disgyblion o safon dda yn gyson ar draws yr ysgol
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da gyda'u Cymraeg llafar
- Mae presenoldeb yn cymharu'n dda â phresenoldeb ysgolion tebyg, ac mae prydlondeb yn dda
- Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu dan do ac yn yr awyr agored, sy'n cyfrannu'n effeithiol at wella deilliannau disgyblion a'u lefelau lles uchel
- Mae athrawon yn cynnal diddordeb ac yn cymell disgyblion yn llwyddiannus drwy ddefnyddio ystod eang o ddulliau addysgu a dysgu
- Mae'r ysgol yn nodi disgyblion sy'n agored i niwed a'r rheini ag anghenion ychwanegol yn dda, ac mae'n darparu cymorth helaeth o ansawdd uchel i ennyn eu diddordeb a'u cymell i gyflawni orau hyd eithaf eu gallu
- Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd hynod ofalgar a chroesawgar, sy'n fuddiol o ran cefnogi anghenion dysgu gwahanol yr holl ddisgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd:

- Mae uwch arweinwyr yn darparu cyfeiriad strategol clir ac yn rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda staff, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach
- Mae llywodraethwyr yn gefnogol ac mae ganddynt wybodaeth gadarn am gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu
- Mae'r ysgol yn defnyddio staff addysgu a staff cymorth yn effeithiol iawn i fodloni anghenion disgyblion ac i wneud y defnydd gorau o arbenigedd staff
- Mae diwylliant cadarn o wella yn treiddio drwy'r ysgol, gyda gweithdrefnau sy'n rhoi lle canolog i wella deilliannau, lles a darpariaeth ar gyfer pob disgybl
- Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol iawn gyda'r clwstwr lleol a'i theulu ehangach o ysgolion i rannu hyfforddiant gwerthfawr ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol
- Mae pob un o'r staff yn cyfranogi'n frwd mewn gwneud penderfyniadau er mwyn dwyn yr ysgol yn ei blaen, ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain a phobl eraill
- Mae partneriaethau effeithiol iawn a sefydledig gan yr ysgol sy'n cael effaith

sylweddol ar gyrhaeddiad a lles disgyblion

- Mae'r bartneriaeth fuddiol iawn gyda rhieni yn arwain y sector ac yn creu amgylchedd cymunedol lle mae dealltwriaeth, ymddiriedaeth a pharch yn ffynnu
- Mae'r ysgol yn codi disgwyliadau disgyblion yn llwyddiannus ynglŷn â beth allant ei gyflawni yn yr ysgol ac mewn bywyd, gan arwain at lefelau uchel o gyfranogiad mewn dysgu, balchder yn yr ysgol a sylfeini cadarn ar gyfer dysgu gydol oes

## Argymhellion

A1 Gwella gallu disgyblion i ysgrifennu'n estynedig at ddibenion a chynulleidfaoedd gwahanol

A2 Darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gymhwyso'u medrau rhifedd a'u medrau datrys problemau ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau bod athrawon yn defnyddio marcio yn fwy cyson i fynd ar drywydd camgymeriadau cyffredin mewn gwaith disgyblion ac i helpu disgyblion i wybod sut i wella

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae asesiad gwaelodlin yr ysgol yn dangos bod llawer o ddisgyblion, wrth gychwyn yn yr ysgol, yn meddu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau islaw'r lefel a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran. Mae llawer o ddisgyblion sy'n derbyn cymorth i wella'u medrau llythrennedd a rhifedd yn gwneud cynnydd addas mewn grwpiau ymyrraeth. Mae llawer o ddisgyblion sy'n cael cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u targedau unigol a'u mannau cychwyn. Mae bron pob un o'r disgyblion yn y ddarpariaeth adnoddau yn gwneud cynnydd da, yn enwedig o ran datblygu'u medrau cyfathrebu, yn y ganolfan adnoddau ac wrth weithio mewn gwersi dosbarthiadau'r brif ffrwd. Cyflawnant yn dda yn unol â'u galluoedd.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac ar oedolion, ac maent yn cynnal eu canolbwyntio am gyfnodau amser priodol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn frwdfrydig am eu gwaith ac yn ateb cwestiynau'n barod, gan ddefnyddio geirfa briodol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn, yng nghyfnod allweddol 2, yn mynegi'u barnau yn hyderus ac yn groyw, er enghraifft wrth rannu'u canfyddiadau o'u gwaith hanes lle maent yn gweithredu fel archeolegwyr.

Mae gan lawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol agwedd gadarnhaol at ddarllen ac maent yn trafod eu hoff awduron yn frwd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn darllen yn fwyfwy rhugl a gydag ymwybyddiaeth gadarn o atalnodi syml. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn trafod eu llyfrau gyda manylder priodol, a gallant fwrw golwg ymlaen i gael gwybodaeth yn dda. Mae ychydig o ddisgyblion sy'n fwy abl yn dangos empathi â chymeriadau yn y llyfrau a ddarllenant, a chymhwysant eu medrau'n effeithiol i ddehongli'r testun ymhellach na'i ystyr llythrennol. Mae hyn yn cynorthwyo'u hysgrifennu estynedig yn effeithiol, fel y gwelir yn eu gwaith ar 'The Boy in the Striped Pyjamas'.

Mae cyflwyniad gwaith ysgrifenedig ar draws yr ysgol yn daclus, yn ddarllenadwy ac o ansawdd addas yn gyffredinol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn cynhyrchu darnau byr o ysgrifennu gan ddefnyddio'u gwybodaeth am ffoneg i'w helpu i sillafu geiriau a ddefnyddir yn gyffredin yn gywir. Maent yn dechrau defnyddio priflythrennau ac atalnodau yn gywir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni safonau da yn eu hysgrifennu, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad papur newydd fel rhan o'u testun Oes Fictoria. Mae mwyafrif o ddisgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 yn dechrau drafftio ac ailddrafftio eu gwaith a defnyddio paragraffau yn briodol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion ar draws yr ysgol bob amser yn ysgrifennu'n estynedig ar draws ystod o bynciau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gwersi datblygiad mathemategol ac ar draws meysydd eraill o'r cwricwlwm. Mae dealltwriaeth dda o iaith mathemateg gan ddisgyblion iau, a defnyddiant hyn yn hyderus wrth siarad am siâp a mesurau yn eu chwarae; er enghraifft, gallai mwyafrif o ddisgyblion nodi trwm ac ysgafn ar y glorian. Mae'r rhan

fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 2 yn datblygu medrau mathemategol da. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn cyfrif yn hyderus mewn deuoedd, pumoedd a degau, a dangosant fedrau pen da i adio a thynnu rhifau o fewn deg. Mae disgyblion sy’n fwy abl yn cymharu, yn trefnu ac yn tynnu rhifau dau ddigid yn gywir, ac maent yn deall cysyniad hanner a chwarter.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn gwersi mathemateg. Mae disgyblion hŷn yn darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau mwy, gan gynnwys y rhai â lleoedd degol, yn gywir. Gall llawer ohonynt weithio allan ffracsiynau a chanrannau syml, ond nid ydynt bob amser yn hyderus i egluro’u rhesymeg. Mae ganddynt fedrau priodol i ymdrin â data a gallant gofnodi data ar siart bar a graff llinell yn gywir. Fodd bynnag, nid yw gallu disgyblion i ddatrys problemau a chymhwyso’u medrau rhifedd ym mhynciau eraill y cwricwlwm wedi’i ddatblygu’n ddigonol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da gyda’u Cymraeg llafar. Gall y rhan fwyaf ohonynt ddefnyddio Cymraeg yn hyderus fel rhan o drefn arferol yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gofyn cwestiynau syml ac yn ymateb i gwestiynau syml yn annibynnol, gan ddilyn patrymau sylfaenol yn ymwneud â themâu cyffredin, ac mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ymestyn eu hatebion yn briodol. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn meddu ar fedrau darllen ac ysgrifennu o safon addas, a defnyddiant Gymraeg mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol yn gyson.

Mae perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen dros y tair blynedd diwethaf, ar y deilliant 5 disgwyliedig, yn gosod yr ysgol yn gyson yn y 25% uchaf ar gyfer llythrennedd a datblygiad mathemategol, o’i chymharu ag ysgolion tebyg. Ar y deilliant 6 uwch na’r disgwyl dros yr un cyfnod, mae perfformiad mewn llythrennedd wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 25% uchaf a’r 50% is, ac mae perfformiad mewn datblygiad mathemategol wedi symud yr ysgol rhwng y 50% is a’r 25% isaf o ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 2, dros y pedair blynedd diwethaf, mewn Saesneg a mathemateg, mae’r ysgol wedi perfformio yn y 25% uchaf ar y cyfan o’i chymharu ag ysgolion tebyg. Mewn gwyddoniaeth ar y lefel 4 ddisgwyliedig, mae perfformiad wedi codi, gan symud yr ysgol o’r 50% is i’r 25% uchaf, o’i chymharu ag ysgolion tebyg. Ar lefel 5 uwch na’r disgwyl, mae perfformiad ym mhob un o’r tri phwnc wedi dangos tuedd am i fyny, gan symud yr ysgol o’r 50% is i’r 25% uchaf o ysgolion tebyg.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae’r bwlch rhwng perfformiad disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a’u cyfoedion wedi lleihau dros y ddwy flynedd diwethaf, ac mae gwahaniaeth nodedig mewn perfformiad ar y deilliannau disgwyliedig a’r deilliannau uwch na’r disgwyl. Yng nghyfnod allweddol 2, dros y pedair blynedd diwethaf ar y lefel 4 ddisgwyliedig, nid yw disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi perfformio gystal â’u cyfoedion mewn Saesneg, ond nid oes gwahaniaeth nodedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Fodd bynnag, ar lefel 5 uwch na’r disgwyl, mae disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio gryn dipyn yn waeth na’u cyfoedion ym mhob un o’r tri phwnc.

## Lles: Da

Mae bron yr holl ddisgyblion yn deall pwysigrwydd ffordd iach o fyw, gan gynnwys yr angen i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod sut i ofyn am gymorth yn yr ysgol os cânt unrhyw broblemau. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn clybiau a thimau'r ysgol yn ystod yr egwyl ginio ac ar ddiwedd y dydd, ac mae hynny'n cyfrannu'n sylweddol at wella eu hyder a'u lles. Mae ymddygiad yn dda yn ystod gwersi ac amser chwarae. Mae llawer o ddisgyblion yn gwrtais, yn parchu barnau pobl eraill, yn cymryd eu tro, ac yn cydweithredu'n dda. Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n effeithiol at eu dysgu, er enghraifft yn ystod y broses 'cynllunio byw' sy'n eu galluogi i rannu'u dewisiadau ynglŷn â'r hyn yr hoffent ganfod mwy yn ei gylch. Mae'r dull hwn yn datblygu agwedd gadarnhaol at eu dysgu ac ymgysylltu â'u dysgu.

Mae aelodau cyngor yr ysgol yn datblygu'u rôl yn cynrychioli safbwyntiau a barnau'u cyfoedion. Gwnânt gyfraniadau buddiol at y broses hunanarfarnu trwy gwblhau troeon dysgu, holiaduron ac arolygon ynglŷn â'u barnau ar y cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd ag amrywiaeth o gyfrifoldebau ychwanegol. Maent yn cwblhau'u dyletswyddau gyda hunanhyder ac yn ymfalchïo yn y cyfrifoldebau hyn.

Mae cyfraddau presenoldeb yr ysgol wedi gosod yr ysgol yn gyson yn y 25% uchaf, dros y tair blynedd diwethaf, o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Dengys y gyfradd presenoldeb ar gyfer y flwyddyn academaidd ddiwethaf ostyngiad bach ac mae'n sefyll ar 92.5%. Mae nifer y disgyblion sy'n methu'n barhaus â mynychu'r ysgol wedi gostwng yn fawr er 2010. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon ac maent yn awyddus i fynychu'n rheolaidd am eu bod yn mwynhau pob agwedd ar fywyd yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol dan do ac yn yr awyr agored, sy'n bodloni gofynion statudol ac yn adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol. Mae'r rhain yn cyfrannu'n effeithiol at wella deilliannau disgyblion a darparu lefelau lles uchel. Mae'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau diddorol yn gwella ac yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae ymweliadau preswyl â Glanllyn yn datblygu medrau cymdeithasol disgyblion yn effeithiol, ac mae amryw o glybiau a thimau chwaraeon yn cefnogi'n llwyddiannus eu hagweddau cadarnhaol at fyw'n iach a gwneud ymarfer corff.

Mae cynllunio'r Cyfnod Sylfaen yn sicrhau parhad a dilyniant yn effeithiol yn nysgu disgyblion. Cynigir nifer o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau llythrennedd a rhifedd o fewn eu gwaith testun ar draws meysydd dysgu. Mae cynllunio cyfnod allweddol 2 ar gyfer medrau llythrennedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn adeiladu'n gynhwysfawr ar wybodaeth a dealltwriaeth flaenorol disgyblion. Defnyddir y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn dda gan yr ysgol i lywio cynllunio. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth yng nghyfnod allweddol 2 yn cynnig cyfleoedd digonol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Ceir darpariaeth dda ar gyfer y dimensiwn Cymreig a hyrwyddo dealltwriaeth a gwerthfawrogiad disgyblion o ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Mae'r rhan fwyaf o staff yn hyrwyddo'r Gymraeg yn dda, ac mae disgyblion yn elwa ar gysylltiadau ag ardal gyferbyniol yng Nghymru.

Mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o gynaliadwyedd yn dda. Mae aelodau'r tîm eco yn ymgymryd â chyfrifoldeb dros ailgylchu papur a gwastraff bwyd. Yn ddiweddar, arweiniwyd menter ysgol lwyddiannus ganddynt i arbed dŵr. Mae gan bob dosbarth gysylltiadau buddiol â gwledydd yn Ewrop a'r byd ehangach. Mae'r cysylltiadau rhyngwladol buddiol iawn hyn yn cefnogi disgyblion yn dda i ddatblygu'u dealltwriaeth o fywydau pobl mewn gwahanol wledydd.

**Addysgu: Da**

Yn y rhan fwyaf o wersi ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynnal diddordeb ac yn cymell disgyblion yn llwyddiannus gan ddefnyddio ystod eang o ddulliau addysgu a dysgu. Defnyddiant amrywiaeth o adnoddau, yn cynnwys TGCh a'r amgylchedd awyr agored, i wella profiadau dysgu disgyblion yn effeithiol iawn. Mae dealltwriaeth glir gan lawer o athrawon o'r hyn y maent eisiau i ddisgyblion ei gyflawni, ac maent yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o'u hamcanion dysgu ar ddechrau gwersi. Mae cynorthwywyr addysgu yn gweithio'n agos â'r athro, a gwnânt gyfraniadau gwerthfawr at ddysgu disgyblion. Mae gan bob un o'r staff berthnasoedd gweithio da gyda disgyblion sy'n meithrin agweddau cadarnhaol at ddysgu yn dda.

Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae'r defnydd effeithiol o gwestiynau penagored yn annog disgyblion i ddefnyddio medrau meddwl a datrys problemau, gan eu galluogi i fynegi'u barnau, rhannu'u syniadau a gweithio ar y cyd. Yn y Cyfnod Sylfaen uwch, mae athrawon yn annog disgyblion i fyfyrio'n dda ar eu dysgu, a gwelir tystiolaeth o hyn yn eu gwaith ysgrifennu dyddiadur am Dân Mawr Llundain. Yn yr ychydig iawn o wersi lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae diffyg rhediad yn y gwersi ac nid yw tasgau yn cyfateb i anghenion disgyblion yn ddigon da.

Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn cynnig sylwadau cefnogol. Fodd bynnag, nid yw sylwadau ysgrifenedig bob amser yn nodi'n ddigon clir beth sydd angen i ddisgyblion ei wneud i wella ansawdd eu gwaith, gan gynnwys cywiro gwallau a wneir yn fynych.

Gwneir defnydd priodol o ystod dda o strategaethau asesu ar gyfer dysgu gan y rhan fwyaf o athrawon. Mae disgyblion iau yn defnyddio arwyddion bawd i fyny neu fawd i lawr i ddangos pa mor dda maent yn deall y tasgau, ac mae disgyblion hŷn yn arfarnu eu gwaith yn erbyn meini prawf llwyddo yn dda. Darperir cyfleoedd da gan lawer o athrawon i ddisgyblion asesu'u gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill, gan ddefnyddio cyfrifiaduron llechen yn aml.

Mae athrawon yn asesu gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn gwneud defnydd addas o brofion safonedig a'u hasesiadau eu hunain i olrhain cynnydd disgyblion. Caiff rhieni a gofalwyr wybodaeth dda am gynnydd a chyrhaeddiad eu plentyn drwy gyfarfodydd rhieni rheolaidd ac adroddiadau blynyddol sy'n llawn gwybodaeth.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, gefnogol a chynhwysol, lle rhoddir blaenoriaeth uchel i les disgyblion. Mae gan bron pob un o'r staff ddisgwyliadau clir o ymddygiad disgyblion a darparant gyfleoedd iddynt ddatrys gwrthdaro yn annibynnol mewn modd tawel a chefnogol.

Ceir trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae staff yn darparu'n dda ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion drwy weithredoedd dyddiol o gydaddoli ac ystod ddiddorol o weithgareddau'r cwricwlwm. Cynigir cyfleoedd da iawn i ddisgyblion fyfyrio ar eu credoau, eu priodweddau personol a'u medrau eu hunain.

Mae'r ysgol yn nodi disgyblion ag anghenion ychwanegol yn gynnar ac yn darparu cymorth helaeth o ansawdd uchel i ddisgyblion sy'n agored i niwed sydd ag ystod eang o anghenion. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol.

Ceir cysylltiadau cadarn ag ystod eang o wasanaethau arbenigol, sy'n cefnogi'r ysgol yn effeithiol o ran bodloni anghenion amrywiol ac anghenion heriol yn aml y disgyblion unigol. Mae llawer o gynorthwywyr addysgu yn gweithio'n agos â staff arweiniol i gyflwyno ystod o raglenni ymyrraeth cynhwysfawr ac arbenigol. Mae darparu'r ymyrraeth annog gynnar hon o ansawdd uchel yn arwain at welliannau mewn presenoldeb, ymddygiad, cyflawniad a hunan-barch.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd hynod ofalgar a chroesawgar, sy'n fuddiol o ran cefnogi anghenion dysgu gwahanol pob un o'r disgyblion. Mae pob un o'r staff yn gweithio'n agos â'i gilydd i ddathlu talentau a gwahaniaethau disgyblion ac i godi'u disgwyliadau ynglŷn â'r hyn y gallant ei gyflawni yn yr ysgol ac mewn bywyd. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae ganddynt lefelau lles uchel. O ganlyniad, maent yn datblygu'u talentau unigol yn dda mewn awyrgylch anogol. Mae'r ysgol yn trin pob disgybl yn gyfartal, yn deg a gyda pharch. Mae disgyblion yn cael mynediad at bob agwedd ar y cwricwlwm a'r ystod helaeth o weithgareddau allgyrsiol diddorol.

Mae safle'r ysgol yn ddiogel a chadarn ac mae pob aelod o staff yn gwneud defnydd da iawn o'r gofod sydd ar gael, dan do ac yn yr awyr agored. Mae llawer o ardaloedd arbenigol ac ystafelloedd penodedig yn yr ysgol, fel ystafelloedd technoleg, llyfrgell, ysgol goedwig, ardal yr ardd, plaza dysgu ac ystafelloedd anogaeth dynodedig. Mae disgyblion yn elwa'n fawr o ddefnyddio'r ardaloedd hyn. Mae'r ardaloedd helaeth dan do a pharthau dysgu gweithredol yn cynorthwyo'r safonau ymddygiad da a welwyd amser cinio ac yn gwella medrau cymdeithasol disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio'r awyr agored a TGCh yn effeithiol iawn i ennyn diddordeb bechgyn sy'n ysgrifenwyr amharod ac i gymell disgyblion agored i niwed sydd â hunan-barch isel, presenoldeb afreolaidd, ac agweddau gwael at ddysgu. Mae ei llwyddiant i'w weld yn amlwg yn y lefelau presenoldeb gwell, medrau ysgrifennu'n cael eu cymhwyso'n gynyddol ar draws y cwricwlwm a'r safonau ymddygiad uchel a brwdfrydedd i ddysgu

gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae'r ysgol yn rhannu'r syniadau hyn yn llwyddiannus iawn gydag ysgolion lleol eraill, ac yn gweithredu fel enghraifft o arfer dda i'r awdurdod lleol.

Ceir ystod eang o adnoddau o ansawdd da i gefnogi pob agwedd ar yr addysgu a'r dysgu. Yn benodol, mae'r defnydd rheolaidd o lechi cyfrifiadurol ac arddangosfeydd rhyngweithiol, sy'n cynnwys recordiadau o feddyliau disgyblion, yn datblygu medrau llefaredd disgyblion yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion yn gwneud fideos o ddilyniannau ac yn eu trafod yn aeddfed mewn gwersi addysg gorfforol er mwyn gwella'u perfformiad a'u techneg. Mae arddangosfeydd diddorol ar draws yr ysgol yn dathlu cyflawniadau disgyblion ac yn darparu ffocws da ar gyfer dysgu mewn amgylchedd ysgogol.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn arwain yr ysgol yn effeithiol iawn ac yn darparu cyfeiriad strategol clir ar sail dealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer datblygu. Rhannant y weledigaeth hon yn llwyddiannus â staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion, ac mae llinellau atebolrwydd clir. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth y corff llywodraethol a'r dirprwy bennaeth effeithiol iawn, wedi parhau i wella'r ddarpariaeth, gwella lles disgyblion a gwella deilliannau disgyblion. Ceir lefel uchel o ddidwylledd, ymddiriedaeth a pharch rhwng uwch arweinwyr, athrawon, staff cymorth a llywodraethwyr, gyda chydbwysedd da o her a chymorth yn ei le. Mae dealltwriaeth glir gan bob aelod o staff o'u rolau a'u cyfrifoldebau, ac ymgymerant â'r rhain yn ddiwyd.

Mae cyfarfodydd yn canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau gwella'r ysgol a chodi safonau, gan roi lle canolog i les a hunan-barch disgyblion. Mae pob un o'r staff yn cyfranogi'n frwd mewn penderfyniadau er mwyn dwyn yr ysgol yn ei blaen, ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain a phobl eraill.

Mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, ac mae hyn wedi arwain at welliannau ym mhresenoldeb disgyblion, hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, a'r defnydd o dechnoleg ddigidol i gynorthwyo medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd buddiol o ran mynd i'r afael â'r cyswllt rhwng tangyflawniad ac amddifadedd. Mae hyn yn fuddiol i les disgyblion ac yn helpu codi safonau mewn medrau llefaredd, darllen ac ysgrifennu, er enghraifft drwy'r fenter ysgol goedwig.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol ac mae ganddynt wybodaeth gadarn am gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae llawer ohonynt yn mynychu sesiynau hyfforddi ac yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ar gyfer digwyddiadau ac at ddibenion monitro. Maent yn ymwneud yn fanwl â phroses hunanarfarnu'r ysgol ac yn datblygu'u rôl fel 'ffrind beirniadol' yn dda.

## Gwella ansawdd: Rhagorol

Mae diwylliant o wella yn treiddio drwy'r ysgol, gyda gweithdrefnau sy'n rhoi lle canolog i wella deilliannau, lles a darpariaeth ar gyfer pob disgybl. Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth amlwg i gamau gweithredu ac yn cysylltu'r rhain yn fanwl â'r canfyddiadau o'r adroddiad hunanarfarnu. Un nodwedd ragorol yw'r ffordd y mae'r ysgol yn defnyddio'r broses hunanadolygu i greu'r amodau gorau posibl i bob disgybl unigol ddatblygu a ffynnu'n academaidd, yn gymdeithasol ac yn emosiynol.

Mae'r broses hunanarfarnu yn cynnwys staff, llywodraethwyr, rhieni, disgyblion a'r gymuned leol yn llawn, ac mae'n canolbwyntio'n glir ar dystiolaeth a gasglwyd o fonitro gwersi, craffu ar waith disgyblion, gwrando ar ddysgwyr a rhieni, a dadansoddi data ar lefel ysgol gyfan, carfan a disgyblion unigol. Mae hyfforddiant ar y cyd ar gyfer staff a llywodraethwyr yn sicrhau cysondeb yn y modd yr eir ati i hunanarfarnu, a'r modd y mae hyn yn arwain at farnau. Mae ystod eang o weithgareddau monitro yn rhoi darlun cywir i'r ysgol o'i chryfderau a meysydd i'w datblygu.

Mae trefniadau effeithiol iawn gan yr ysgol ar gyfer casglu barnau disgyblion a rhieni drwy holiaduron a thrwy adran adborth ar wefan yr ysgol. Mae'r ysgol yn talu sylw manwl iawn i'w sylwadau ac yn eu cynnwys yn llwyddiannus yn y broses hunanarfarnu. Yn dilyn awgrymiadau gan ddisgyblion ynglŷn â defnyddio technoleg ddigidol fel offeryn dysgu, mae disgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 yn gweithredu fel arweinwyr digidol i gynorthwyo'u cyfoedion i wella'u medrau TGCh. Mae datblygu llwyfan dysgu yn ddiweddar yn galluogi'r ysgol i rannu adnoddau dysgu a gwaith disgyblion gydag ysgolion eraill ar hyd a lled Cymru. Mae hyn yn arwain at fedrau darllen gwell a chymhwyso medrau llythrennedd yn well ar draws y cwricwlwm.

Mae cymuned ddysgu glòs yn galluogi staff i rannu syniadau, gwybodaeth ac arbenigedd ac mae'n allweddol o ran symud yr ysgol yn ei blaen. Mae hyn yn sicrhau gwelliant, er enghraifft, o ran codi safonau mewn TGCh a datblygu medrau llefaredd a darllen Cymraeg staff a disgyblion. Mae staff yn dysgu oddi wrth rai eraill y tu allan i'r ysgol trwy gyfarfodydd a mentrau clwstwr. Mae aelodau staff â chyfrifoldebau arweiniol dros feysydd y cwricwlwm neu raglenni cymorth anogaeth yn gweithio'n agos iawn â chydweithwyr i roi cynlluniau datblygu ar waith. Mae hyn yn sicrhau lefelau uchel o gysondeb mewn strategaethau addysgu a dysgu, asesu a gofal, cymorth ac arweiniad.

Mae'r hunanarfarnu o ran bob agwedd ar fywyd yr ysgol yn cysylltu'n agos â chynlluniau datblygu'r ysgol a nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r cynllun yn cynnwys meini prawf clir y gellir eu mesur, graddfeydd amser realistig a chostau. Er enghraifft, mae'r ysgol yn mynd ati'n ofalus i arfarnu'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud ar raglenni ymyrraeth, a phan fydd angen, mae'n addasu tasgau yn y modd gorau i fod yn addas ar gyfer anghenion y disgyblion hyn. Mae hyn yn eu galluogi i wneud cynnydd da iawn.

## Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol

Mae partneriaethau effeithiol iawn a sefydledig gan yr ysgol sy'n cael effaith sylweddol ar gyrhaeddiad a lles disgyblion. Mae llawer o agweddau ar weithio mewn partneriaeth yr ysgol yn arwain y sector. Mae arweinwyr yn gweithio'n eithriadol o

effeithiol gyda'r ddarpariaeth gyn-ysgol ar y safle. Mae athrawon o'r feithrinfa a chynorthwyydd addysgu dynodedig yn darparu cymorth helaeth drwy ymweliadau cartref a gweithdai. Mae'r cymorth cynnar hwn yn parhau'n ddi-dor wrth i ddisgyblion drosglwyddo i feithrinfa'r ysgol, gan arwain at welliannau sylweddol yn ymddygiad, presenoldeb a chyflawniad disgyblion.

Ceir nifer o bartneriaethau arloesol gyda rhieni. Mae'r ysgol yn darparu cymorth bugeiliol o ansawdd uchel i deuluoedd sy'n agored i niwed drwy raglenni cymorth anogaeth effeithiol. Mae hefyd yn hyrwyddo datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau cymdeithasol sylfaenol disgyblion yn dda drwy weithdai dysgu fel teulu. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi cyfraniadau rhieni yn fawr, ac yn darparu fforwm iddynt fynegi'u barnau a'u safbwyntiau ynglŷn â gwella'r ysgol, polisïau bugeiliol a phenderfynu ar ddigwyddiadau codi arian. Mae hyn yn creu amgylchedd cymuned lle mae dealltwriaeth, ymddiriedaeth a pharch yn ffynnu.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau da iawn â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf trwy raglen effeithiol iawn ar y cyd i roi'r cyfle i bob rhiant ganfod mwy am gyfleoedd addysg uwch. Mae hyn yn codi uchelgeisiau ar gyfer dysgu gydol oes yn llwyddiannus i ddisgyblion a rhieni.

Mae disgyblion hŷn yn elwa ar gysylltiadau da iawn â'r ysgol gyfun leol, sy'n cynorthwyo pontio hwylus. Bydd athrawon Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o'r ysgol uwchradd yn gweithio'n rheolaidd â grwpiau bach o ddisgyblion mwy abl a thalentog ym Mlwyddyn 6. Mae hyn yn fuddiol iawn o ran gwella deilliannau disgyblion ar y lefelau uwch na'r disgwyl.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol iawn gyda'r clwstwr lleol a'r teulu o ysgolion i rannu hyfforddiant gwerthfawr ar y fframwaith llythrennedd a rhifedd. Gyda'i gilydd, maent yn cymedroli safonau gwaith Saesneg yn gywir yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at wella deilliannau disgyblion ac at hyrwyddo datblygiad proffesiynol athrawon.

Ceir cysylltiadau cadarn â busnesau lleol. Er enghraifft, mae ymweliad ag archfarchnad leol yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o Fasnach Deg ymhellach. Mae'r bartneriaeth â gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol yn arbennig o gadarn, ac mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn ystod eang o fentrau, yn cynnwys darparu cymorth i ysgolion eraill, siarad mewn cynadleddau a chroesawu athrawon eraill i'r ysgol i rannu arfer dda.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn defnyddio staff addysgu a staff cymorth yn effeithiol i fodloni anghenion disgyblion ac i wneud y defnydd gorau o arbenigedd staff, er enghraifft i addysgu Cymraeg a chyflwyno darpariaeth annog. Ceir trefniadau priodol ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon, a chaiff uwch arweinwyr amser digyswllt ychwanegol priodol ar gyfer dyletswyddau arwain.

Mae prosesau rheoli perfformiad ar gyfer pob aelod o staff yn effeithiol o ran nodi anghenion hyfforddi, a chysylltant yn agos â meysydd i'w datblygu yng nghynllun gwella'r ysgol. Mae hyn yn helpu sicrhau gwelliannau yn yr addysgu a gwella

deilliannau ar gyfer dysgwyr.  Mae cysylltiadau da gan yr ysgol ag ysgolion lleol eraill a'i theulu ehangach o ysgolion ledled Cymru.  Mae'n rhannu arbenigedd yn dda, er enghraifft trwy greu portffolio wedi'i lefelu o ysgrifennu yn Saesneg.  Mae hyn yn creu cyd-ddealltwriaeth a chysondeb dulliau wrth lefelu gwaith disgyblion, sy'n cynorthwyo dealltwriaeth athrawon yn dda.

Mae arweinwyr yn gwneud penderfyniadau priodol ar wariant yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol, ac yn monitro'r rhain yn ofalus.  Gwna arweinwyr ddefnydd effeithiol o'r grant amddifadedd disgyblion i wella'r ddarpariaeth, lles a deilliannau ar gyfer disgyblion targedig.  Mae hyn yn llwyddo i leihau'r bwlch mewn perfformiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion erbyn iddynt adael yr ysgol.

O ystyried y cynnydd da y mae disgyblion yn ei wneud o fannau cychwyn isel, a'r deilliannau da a gyflawnant, y cyfleoedd dysgu diddorol a'r cryfderau yn yr arweinyddiaeth, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6632060 - Ysgol Emmanuel**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 470 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 49.1 | |
| Grŵp PYD | 5 | (32%<PYD) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 62 | 55 | 60 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 87.1 | 87.3 | 86.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 62 | 55 | 60 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 88.7 | 87.3 | 88.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 29.0 | 18.2 | 18.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 62 | 55 | 60 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 98.4 | 100.0 | 96.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 14.5 | 16.4 | 10.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 62 | 55 | 60 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 91.9 | 90.9 | 96.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 43.5 | 50.9 | 13.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6632060 - Ysgol Emmanuel**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 470 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 49.1 |
| Grŵp PYD | 5 (32%<PYD) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 56 | 56 | 48 | 56 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 82.1 | 82.1 | 87.5 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 56 | 56 | 48 | 56 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.9 | 85.7 | 93.8 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 16.1 | 30.4 | 35.4 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 56 | 56 | 48 | 56 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 87.5 | 87.5 | 93.8 | 94.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 23.2 | 25.0 | 39.6 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 56 | 56 | 48 | 56 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 98.2 | 96.4 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 14.3 | 35.7 | 37.5 | 66.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiaduron i ddysgwyr

Holiadur cynradd (cyffredinol)

mae'n dynodi'r meincnod - dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 121 | 121<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 121 | 120<br>99% | 1<br>1% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 121 | 121<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 121 | 121<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 121 | 121<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 121 | 119<br>98% | 2<br>2% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 121 | 121<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 121 | 121<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 121 | 116<br>96% | 5<br>4% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 121 | 121<br>100% | 0<br>0% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 120 | 113<br>94% | 7<br>6% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 121 | 119<br>98% | 2<br>2% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiaduron i rieni

mae'n dynodi'r meincnod - dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 128 | 90 | 36 | 0 | 2 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 70% | 28% | 0% | 2% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 130 | 107 | 21 | 1 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 82% | 16% | 1% | 1% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 130 | 108 | 20 | 1 | 1 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 83% | 15% | 1% | 1% | | |
| | | 72% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 130 | 104 | 23 | 2 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 80% | 18% | 2% | 1% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 129 | 82 | 41 | 4 | 1 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 64% | 32% | 3% | 1% | | |
| | | 45% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 129 | 99 | 28 | 1 | 1 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 77% | 22% | 1% | 1% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 130 | 98 | 30 | 1 | 1 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 75% | 23% | 1% | 1% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 125 | 64 | 40 | 5 | 1 | 15 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 51% | 32% | 4% | 1% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 129 | 94 | 32 | 0 | 2 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 73% | 25% | 0% | 2% | | |
| | | 58% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 130 | 91 | 34 | 0 | 1 | 4 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 70% | 26% | 0% | 1% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 130 | 108 | 19 | 0 | 2 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 83% | 15% | 0% | 2% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 128 | 94 | 26 | 0 | 2 | 6 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 73% | 20% | 0% | 2% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 130 | 91 | 35 | 2 | 1 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 70% | 27% | 2% | 1% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 129 | 102<br>79% | 25<br>19% | 0<br>0% | 1<br>1% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 130 | 84<br>65% | 30<br>23% | 5<br>4% | 0<br>0% | 11 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 127 | 93<br>73% | 27<br>21% | 2<br>2% | 0<br>0% | 5 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 121 | 72<br>60% | 29<br>24% | 1<br>1% | 2<br>2% | 17 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 128 | 91<br>71% | 28<br>22% | 3<br>2% | 2<br>2% | 4 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 129 | 99<br>77% | 29<br>22% | 0<br>0% | 1<br>1% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Susan Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Sioned Hywel Thomas | Arolygydd Tîm |
| Peter Duncan Haworth | Arolygydd Lleyg |
| Heulwen Burke | Arolygydd Cymheiriaid |
| Pamela Jane Parry | Arolygydd Cymheiriaid |
| Alison Matthias | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.